# Y Pwyllgor Cylliid

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 18 Ebrill 2013** |
| Amser: | **13: - 15:00** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300002_18_04_2013&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
**Peter Black**
**Christine Chapman**
**Paul Davies**
**Mike Hedges**
**Ann Jones**
**Julie Morgan**
**Ieuan Wyn Jones**

Tystion:

**Jane Hutt, Gweinidog Cyllid**
**Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Sioned Evans, Llywodraeth Cymru**
**Piers Bisson, Public Service Reform Division**
**Deborah Paramore, Public Service Reform Team**

Staff y Pwyllgor:

**Gareth Price (Clerc)**
**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**
**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2. Rheoli Asedau - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth; Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid; Sioned Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Eiddo; a Deborah Paramore, Rheolwr Rhaglenni, Tîm Diwygio GwasanaethAU Cyhoeddus.

2.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidogion.

Camau i'w cymryd:

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r canlynol:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am arbedion a gafwyd o'r Strategaeth Lleoliad a gwaith rheoli'r ystâd weinyddol;
- Rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella dibynadwyedd a chysondeb yn y gwaith o gyflwyno gwybodaeth er mwyn galluogi meincnodi a rheoli perfformiad;
- Enghreifftiau o ble y defnyddiwyd ceisiadau llwyddiannus Buddsoddi i Arbed er mwyn mynd i'r afael â materion Rheoli Asedau;
- Arbedion a wnaed gan ddefnyddio dull y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, yn gymesur ag arbedion a wnaed gan fodel y Scottish Futures Trust.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 5. Ystyried y Dystiolaeth ar Reoli Asedau

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth ar ei ymchwiliad i Reoli Asedau.